

# Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 10fed 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Geraint Jones (Cadeirydd), Gwynfryn Williams, Jean Roberts, y Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Euros Puw, Gwynedd Jones, Rhys Richards, Arwel Davies, Geraint Davies a Huw Charles.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfodydd diwethaf:-

- i) Draen ger yr Hen Bost, Parc - adroddodd y clerch fod swyddogion Cyngor Gwynedd wedi mynychu cyfarfod ar y safle ac wedi cytuno i 'jettio'r' draen yn rheolaidd i sicrhau nad oedd yn tagu ac yn rhwystro'r dŵr rhag mynd lawr.
- ii) Canghennau'r coed ger chwarel Arenig a Bodarenig – roedd y gweithlu wedi cael cyfarwyddiadau i drin y coed a oedd yn dod drosodd i'r ffordd.
- iii) Canllawiau Pont Rhydyfen, Arenig - roedd yr Arolygwr Priffyrdd am eu harchwilio a threfnu i unrhyw waith cael ei wneud.
- iv) Dŵr yn dod i'r ffordd ar yr A4212, ger Maen Mawr, Arenig – roedd yr Arolygwr Priffyrdd am archwilio'r safle pan fydd y tywydd yn wlyb nesaf.
- v) Cylfat ar riw Plas Madog, Glanllyn – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi clirio'r broblem.
- vi) Gwter ger Preswylfa a Gwalia, Parc - roedd y gweithlu am ei glirio gyda'r 'jetter' a chael gair gyda'r perchennog tir. Gofynnwyd i'r clerch eu hysbysu fod angen trwsio'r beipen a'r concrit o'i chwmpas hefyd.
- vii) Dŵr yn casglu ger y bont ym mhentref Parc – eto roedd y gweithlu am ei glirio gyda'r 'jetter' a chael gair gyda'r perchennog tir.
- viii) Twll archwilio wedi suddo ar yr allt wrth ddod fewn i bentref Rhyduchaf – roedd y mater wedi cael ei anfon i'r uned Gwaith Stryd yng Nghaernarfon.
- viiii) Gwrych Bryn Tirion, Maesywaen yn dod drosodd i'r ffordd – roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi gofyn i berchennog y gwrych i'w dorri cyn gynted a phosib.

### **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

#### **a) Cyngor Gwynedd.**

- i) Derbyniwyd llythyr yn ein cynghori y byddai'r gweithlu yn clirio'r biniau halen pan fyddai amser yn caniatáu.
- ii) Gwybodaeth am eu rhaglen adnewyddu pas bws.

#### **b) Amrywiol.**

- i) Cyfoeth Naturiol Cymru – Ymgynghoriad Llyn Tegid - diweddariad ar y cynlluniau i ddiogelu rhag digwyddiadau llifogydd eithriadol.
- ii) Llywodraeth Cymru – Llythyr yn ein hysbysu o'r 'Swm Priodol o dan Adran 137o ddeddf Llywodraethol Leol 1972'ar gyfer 2020-21.
- iii) Parc Cenedlaethol Eryri - Llythyr yn ein cynghori o'r gofrestr tai fforddiadwy ar-lein 'Tai Teg'.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

Nid oedd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**vi) Materion Ariannol**

**a) Adolygu cyflog y clerc**

Gan fod cynlleied o gynghorwyr yn bresennol cytunwyd i adolygu cyflog y clerc yn y cyfarfod nesaf.

**b) Cyllideb a Praesept 2019/20**

Cafwyd braslun o'r gyllideb gan y clerc. Cytunodd y cynghorwyr i barhau i beidio hawlio unrhyw daliadau anorfod ac y byddant yn dewis optio allan o hyn ym mis Ebrill. Ychwanegwyd £150 ar gyfer cynnal a diweddarau'r wefan. Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer yr yswiriant a llogi'r neuadd ar gyfer cyfarfodydd. Trafodwyd y swm o arian a gadwir wrth gefn a chytunwyd bod y swm yn ddigonol. Cytunwyd i gadarnhau'r gyllideb yn y cyfarfod nesaf pan fyddai fwy o gynghorwyr yn bresennol. Pasiwyd i gadw'r Praesept o £4,000 ar gyfer 2020-21.

**c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-**

Cyflog a Chostau'r Clerc (Hyd-Rhag), TWE, Swyddfa Archwilio Cymru (archwiliad allanol), HG Web Designs (gwefan), ICO.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Gwasanaeth ail-gylchu - derbyniwyd nifer o gwynion am y sbwriel oedd y lori ail gylchu yn gadael ar ei hôl.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos  
Fawrth, Chwefror 11eg yn Neuadd  
Maesywaen am 8.00 y.h.**